

Rhyddhad Ardrethi a Ariennir gan Lywodraeth Cymru



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhyddhad ardrethi ar gyfer busnesau bach yng Nghymru o 1 Ebrill 2018.

Bydd safleoedd busnes sydd â gwerth ardrethol hyd at £6,000 yn cael rhyddhad o 100%, a bydd y rheini sydd â gwerth ardrethol rhwng £6,001 a £12,000 yn cael rhyddhad ar raddfa a fydd yn gostwng o 100% i sero.

Brasamcan o rai o'r gwahanol gyfraddau o ryddhad

Gwerth Ardrethol (£)	% Rhyddhad	Gwerth Ardrethol (£)	% Rhyddhad
0 - 6,000	100	9,000	50
7,000	83.4	10,000	33.3
8,000	66.6	11,000	16.6

Bydd busnesau sy'n derbyn rhyddhad ar gyfradd uwch ar hyn o bryd yn cael y gyfradd ryddhad sydd fwyaf manteisiol iddynt.

Os oes gan dalwr ardrethi unrhyw ymholiadau am ryddhad ardrethi neu daliadau yn y dyfodol, dylid cyfeirio'r rhain at yr awdurdod lleol.

Nodiadau:

1. Rhaid i bob safle busnes fod wedi'i feddiannu'n llwyr er mwyn bod yn gymwys i gael rhyddhad ardrethi.
2. Bydd y canlynol yn derbyn rhyddhad ardrethi fel a ganlyn:
 - Bydd Swyddfeydd Post sydd â gwerth ardrethol o hyd at £9,000 yn cael rhyddhad o 100% a bydd rhai â gwerth ardrethol rhwng £9,001–£12,000 yn cael rhyddhad o 50%.
 - Bydd safle gofal plant cofrestredig sydd â gwerth ardrethol o hyd at £6,000 yn cael rhyddhad o 100% a'r rhai sydd â gwerth ardrethol o £6,001–£20,500 yn cael rhyddhad ar raddfa o 100% i sero.
3. Os yw talwr ardrethi yn gyfrifol am fwy na dau eiddo ar un rhestr ardrethi annomestig leol ("rhestr leol"), ac mai dim ond yr amodau gwerth ardrethol y mae'r eiddo yn eu bodloni, bydd y talwr ardrethi yn derbyn rhyddhad ar gyfer uchafswm o ddau eiddo o'r fath yn unig.
4. Ymhlith y safleoedd nad ydynt yn gymwys i gael rhyddhad ardrethi, mae'r rhai sydd wedi'u meddiannu gan gyngor, awdurdod heddlu neu'r Goron; y rhai sydd wedi'u meddiannu gan elusennau, clybiau cofrestredig, neu gyrff dielw y mae eu prif amcanion yn ddyngarol, yn grefyddol neu'n ymwneud ag addysg, lles cymdeithasol, gwyddoniaeth, llenyddiaeth neu'r celfyddydau cain; cabanau glan môr; safleoedd sy'n cael eu defnyddio'n unig ar gyfer arddangos hysbysebion, parcio cerbydau modur, gwaith trin carthion neu gyfarpar cyfathrebu electronig.